

# RECONNECT

cbac wjec

Rhifyn 1

# Cyflwyniad

Croeso i argraffiad cyntaf 'REconnect'. Nod y cylchgrawn yw darparu awgrymiadau ar gyfer addysgu a gwybodaeth allweddol sy'n berthnasol i gymwysterau Astudiaethau Crefyddol CBAC.

Mae'n anodd credu ein bod ni wedi bod yn defnyddio manyleb newydd UG/U am flwyddyn yn barod. Llongyfarchiadau i bob un o'r canolfannau sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi eu hymgeiswyr gyda'r cymhwyster yn ystod 2017. Dechreuwyd addysgu'r fanyleb TGAU a Lefel A diwygiedig ym mis Medi ac rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant gyda'r rhain yn 2018.

Rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi ac i'r erthyglau ddenu sylw eich dysgwyr a'ch cefnogi wrth baratoi ar gyfer y cyrsiau newydd.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr argraffiad cyntaf hwn. Os hoffech ysgrifennu erthygl, neu rannu ychydig o awgrymiadau dysgu penigamp, yna cysylltwch â ni drwy e-bost.

Edrychwn ymlaen i gyd-weithio â chi yn y misoedd sydd i ddod.

Dymuniadau gorau,

Lynda Maddock & Andrew Pearce

**Andrew Pearce**
Swyddog Pwnc (TAG UG/U)
Ffôn: 029 2026 5387
Ebost: **andrew.pearce@cbac.co.uk**





**Lynda Maddock**
Swyddod Pwnc (TGAU)
Ffôn: 029 2026 5122
Ebost: **lynda.maddock@cbac.co.uk**

**Eira Morgan**
Swyddog Cefnogaeth Pwnc (TAG UG/U)
Ffôn: 029 2026 5183
Ebost: **eira.morgan@cbac.co.uk**





**Christopher Barfoot**
Swyddog Cefnogaeth Pwnc (TGAU)
Ffôn: 029 2026 5094
Ebost: **christopher.barfoot@cbac.co.uk**



# Cynnwys


Lefel A - Pennod 1 - 5

Golygfa o'r Bwrdd Gwyn ............ 5

Canllaw ar osod eich cwestiynau 'arholiad' eich hun ............ 7

Datblygu Sgiliau AA1 ac AA2 ............ 14

Paratoi at y Cwestiwn Gwerthuso ............ 25

Aurasma ............ 27

Adnoddau Digidol ar gyfer Lefel A AC ............ 36

Dyddiadau Pwysig – Canolfannau yn Nghymru ............ 39

Rhannu Ffeiliau ar gyfer Lefel A ............ 40

Dolenni i Werslyfrau - Lefel A ............ 42

TGAU - Pennod 6 - 15

Pump 'Trysor' Cyfrwng Poblogaidd i Gysylltu Myfyrwyr Astudiaethau Crefyddol â Damcaniaeth ............ 44

Ffurfio Dadl – Iaith Y Dadansoddi A Gwerthuso ............ 46

Pa fath o gymdeithas seciwlar hoffech ei chael? ............ 48

Tysteb Athro - CBAC ............ 50

Fy marn ar TGAU Astudiaethau Crefyddol ............ 52

Crynodeb: Ateb eich cwestiynau ............ 54

Adnoddau Digidol ar gyfer TGAU AC.....................................................................56
Dyddiadau Pwysig – Canolfannau yn Nghymru.........................................................59
Dolenni i Werslyfrau - TGAU ..............................................................................................61



# Lefel A

# Pennod 1 - 5


Golygfa o'r Bwrdd Gwyn ....................................................................................... 5

Canllaw ar osod eich cwestiynau 'arholiad' eich hun ................................................... 7

Datblygu Sgiliau AA1 ac AA2 ................................................................................. 14

Paratoi at y Cwestiwn Gwerthuso ........................................................................... 25

Aurasma ............................................................................................................ 27

Adnoddau Digidol ar gyfer Lefel A AC ..................................................................... 36

Dyddiadau Pwysig – Canolfannau yn Nghymru ........................................................... 39

Rhannu Ffeiliau ar gyfer Lefel A ............................................................................ 40

Dolenni i Werslyfrau - Lefel A ................................................................................ 42

# Golygfa o'r Bwrdd Gwyn




Oherwydd newidiadau i gwricwlwm ysgol roeddwn yn ffodus o gael blwyddyn i feddwl am addysgu'r fanyleb UG newydd. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn fy mharatoi ar gyfer yr hyn oedd i ddod. Er fy mod wedi addysgu Safon Uwch ers 2000, roeddwn yn wynebu manyleb a oedd yn wahanol iawn i'r un yr oeddwn yn hoff iawn ohoni.

Dros y blynyddoedd rwyf wedi rhoi cynnig ar y rhan fwyaf o'r opsiynau a gynigir ar Safon Uwch ond rwyf wedi canolbwyntio fwyaf ar Iddewiaeth a Bwdhaeth yn ogystal â Chymdeithas Gyfoes. Mae llawer o fyfyrwyr wedi bod yn rhan o fy ystafell ddosbarth, gyda chanlyniadau da a oedd yn fwy na chymaradwy â phynciau eraill yn yr ysgol. Yr hyn a oedd yn arbennig o galonogol oedd bod disgyblion llai galluog yn gweld y cwrs i fod yn hygyrch, yn enwedig yr uned Cymdeithas Gyfoes, ac oherwydd strwythur papur, roedd yn rhaid cymryd risg gofalus o adolygu dau destun ar y ddwy uned yn unig. Roeddwn wedi casglu gwerth sawl blwyddyn o adnoddau, ac roeddwn yn gallu cynnwys clipiau fideo, caneuon a ffilmiau cyfoes a diddorol a roddodd fywyd i'r pwnc.

Wrth i'r fanyleb newydd fy wynebu, roeddwn yn sicr mai Iddewiaeth fyddai fy nghrefydd o ddewis, wedi i mi ei hastudio yn fanwl dros y blynyddoedd a gan bod gen i diddordeb sydd bron yn obsesiwn. Fodd bynnag, pan edrychais ar y cynnwys a oedd disgwyl i fyfyrwyr eu hastudio, fe gododd ofn arna i. Roeddwn wedi siarad â llawer o fy nghydweithwyr a oedd eisoes yn addysgu'r fanyleb newydd felly nid oedd y mwyafrif helaeth o'r deunydd i'w haddysgu'n sioc. Fodd bynnag, mae'r cynnwys yn fwy academaidd a manwl. Rwyf wedi canfod bod ceisio cyffroi a diddori fy myfyrwyr gyda'r cynnwys braidd yn anodd, er rwyf yn teimlo fy mod yn llwyddo i gynnig cwrs gwahanol a diddorol trwy ddefnyddio'r gwerslyfr a nifer fawr o adnoddau ar-lein defnyddiol. Mae'r myfyrwyr mwyaf galluog yn sicr wedi derbyn her y cwrs newydd ac wedi adeiladu ar eu gwybodaeth ers TGAU. Maen nhw wedi ennill gwerthfawrogiad manwl ac academaidd o Iddewiaeth sy'n galonogol iawn. Bydd cyflwyno'r fanyleb TGAU newydd yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc hyd yn oed ymhellach yn y dyfodol.

Rwyf wedi bod yn cynllunio ar gyfer yr elfen Moeseg ac Athroniaeth dros yr ychydig wythnosau diwethaf gan fod y dasg ychydig yn frawychus o'i haddysgu yn agosáu. Nid yw moeseg yn fy mhoeni gan yr oeddwn yn ddigon ffodus i addysgu hyn yn ystod y newidiadau i'r cwricwlwm yn 2000. Mae'r uned hon yn un rwy'n teimlo (a gobeithio) y bydd fy nisgyblion yn mwynhau ei hastudio, yn enwedig gan ein bod yn gallu cynnwys llawer o syniadau cyfoes.

Ar y llaw arall anaml yr wyf wedi dewis addysgu athroniaeth. Rwyf wedi darllen llawer iawn o ddeunydd wrth baratoi ac roeddwn yn ffodus o ganfod llawer o enghreifftiau ardderchog o gynlluniau a syniadau gwersi gan athrawon eraill. Rwyf hefyd wedi ymuno â rhwydwaith broffesiynol o benaethiaid adran eraill i rannu adnoddau sydd wedi bod yn amhrisiadwy, yn enwedig gan fy mod yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, rwyf braidd yn bryderus fod Iddewiaeth ychydig yn heriol i lawer o fy myfyrwyr, felly gallai Athroniaeth fod yn gam yn rhy bell, ond rwy'n parhau i fod yn optimistaidd.


Mae llawer o fy addysgu eleni wedi cynnwys caniatáu i ddisgyblion wneud eu penderfyniadau eu hunain cyn belled â chwblhau tasgau a pha strategaethau sydd orau ganddynt wrth gyflwyno'u gwaith – mae hyn wedi helpu llawer i deimlo bod perchenogaeth ganddynt dros eu dysgu eu hunain, sydd gobeithio'n cynyddu dealltwriaeth.

Fel pob newid i gwricwlwm, rwy'n sicr, ar ôl cwblhau'r cwrs UG a Safon Uwch, ac ar ôl i'r holl adnoddau gael eu cyflwyno byddaf yn teimlo'n hapusach o lawer gyda'r fanyleb.  Rwyf wedi bod yn gwneud nodiadau wrth i mi fynd ymlaen, gyda phethau y gellir eu haddasu a'u newid felly gobeithio bydd gwersi'n cael eu dysgu a bydd fy myfyrwyr yn parhau i lwyddo a bydd rhai yn datblygu i fod yn athrawon Astudiaethau Crefyddol yn y dyfodol.

**Mae'r awdur yn arholwr profiadol ac yn Bennaeth Astudiaethau Crefyddol yn Ne Cymru**

# Canllaw ar osod eich cwestiynau 'arholiad' eich hun

## Cynllun 5 pwynt i osod eich cwestiynau AA1



# Enghraifft o sut mae gosod eich cwestiynau arholiad eich hun gan ddefnyddio'r fanyleb.

**Dylunio cwestiynau AA1 rhan (a). Mae AA1 yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred ...**

**1. DECHRAU**

**Penderfynwch pa ran o'r fanyleb yr hoffech ei phrofi ar gyfer AA1.**

Er enghraifft…

UG UNED 1:
Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth

**Thema 2A: Y Tri Lakshana**

↓

**2. Penderfynwch pa elfennau o AA1 yr hoffech i'ch cwestiynau ganolbwyntio arnynt**

| Grid mapio ar gyfer Amcanion Asesu | |
|---|---|
| **AA1:** Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred … | |
| **AA1 Rhif 1:** yn cynnwys meddylfryd a dysgeidiaeth grefyddol, athronyddol a/neu foesegol. | ✔ |
| **AA1 Rhif 2:** yn cynnwys dylanwad credoau, dysgeidiaeth ac arferion ar unigolion, cymunedau a chymdeithasau. | ✔ |
| **AA1 Rhif 3:** yn cynnwys achos ac arwyddocâd yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn cred, dysgeidiaeth ac arfer. | |
| **AA1 Rhif 4:** yn cynnwys ymagweddau at astudio crefydd a chred. | ✔ |

↓

### 3. Dewis y gair gorchymyn mwyaf priodol ar gyfer eich cwestiwn

Nawr dewiswch y geiriau gorchymyn sy'n eich galluogi i fodloni'r meini prawf a nodwyd yn 1. a 2.

Y geiriau gorchymyn yw ...

| Gair Gorchymyn | Ystyr |
|---|---|
| **Cymhwyswch** | Dangos sut y gall egwyddor, damcaniaeth neu ddysgeidiaeth gael ei defnyddio mewn perthynas â mater neu sefyllfa, e.e. sut y gellid defnyddio damcaniaeth foesegol i ddatrys problem foesegol. |
| **Cymharwch** | Esbonio nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pethau neu safbwyntiau ysgolheigaidd, e.e syniadau, canfyddiadau allweddol. |
| **Esboniwch** | Ysgrifennu cofnod systematig a chynhwysfawr o bwnc, yn archwilio'r rhesymau sylfaenol, gan ganolbwyntio ar yr agwedd a nodir yn y cewstiwn (fel diffiniad, natur, pwrpas, nodweddion), er engraifft:<br><br>Esboniwch sut...<br>Esboniwch pam...<br>Esboniwch bwysigrwydd/arwyddocâd....<br>Mae esbonio'n canolbwyntio ar resymau mewn perthynas â phwnc syml. |
| **Archwiliwch** | Cyflwyno a rhoi cyfrif am wahanol elfennau, neu safbwyntiau o arfer, cysyniad neu gred gymhleth, er engraifft:<br><br>Archwiliwch nodweddion...<br>Archwiliwch y gwahanol ffyrdd mae...<br>Mae archwilio'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar bwnc amlochrog. |
| **Amlinellwch**<br><br>**(UG yn unig)** | Ysgrifennu cofnod cryno o faes eang iawn, gan ddewis gwybodaeth berthnasol yn ofalus a dangos prif nodweddion neu egwyddorion cyffredinol pwnc. |

***NB*** ***Cofiwch mai dim ond ar lefel UG y gellir defnyddio "Amlinellwch".***

**Yn yr achos penodol hwn, y gair oedd yn cyd-fynd orau oedd... Archwiliwch**

Gan ddefnyddio'r gair gorchymyn hwn, lluniwch gwestiwn sy'n arwain ymgeiswyr i gynhyrchu'r math o ymateb yr ydych yn ei ddisgwyl yn eich cynllun marcio.

**<u>Archwiliwch ddysgeidiaeth Fwdhaidd am anicca a dukkha.</u>**

**4. Gwiriwch eirio/gofynion eich cwestiwn**

<u>**Wrth ysgrifennu cwestiwn, ystyriwch y canlynol fel rhestr wirio:**</u>

1. Ydy'r cwestiwn yn bodloni gofynion y fanyleb (yn amlwg yn gysylltiedig â'r fanyleb) a ddim yn mynd y tu hwnt i hynny?
2. Ydy'r termau a ddefnyddir yn briodol ar gyfer myfyrwyr 17/18 oed?
3. Ydy'r iaith yn glir ac yn fanwl?
4. Ydy strwythur y frawddeg a ffocws y cwestiwn yn glir?
5. Gofynnwch i o leiaf dau berson arall i roi adborth ar y papur rydych chi wedi ei o sod a gwnewch ddiwygiadau lle bo angen

Unwaith y byddwch wedi gwneud hynny ac wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau, rhaid i chi symud ymlaen i'r cam nesaf, sef cynhyrchu cynllun marcio.

**5. Cynhyrchu cynllun marcio AA1**

Dylech geisio datblygu cynllun marcio sy'n weddol gynhwysfawr. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y gall ymgeiswyr gynhyrchu deunydd sy'n deilwng o gredyd yn eu hymateb sydd ddim wedi'i rhestru yn y cynllun marcio.

**Er enghraifft, fel ymateb i....**
**Archwiliwch ddysgeidiaethau Bwdhaidd am anicca ac dukkha.**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai un o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill hefyd:**

- Anicca a dukkha yw dau o'r tri lakshana, sy'n arwyddion neu'n nodweddion o fodolaeth.
- Mae anicca yn golygu byrhoedledd ac ansylweddoldeb ac mae'n berthnasol i bopeth sy'n amodol. Mae'n golygu bod popeth mewn cyflwr o newid (state of flux); achos ac effaith; does dim byd yn para am byth.
- Mae Bwdhyddion yn gweld popeth (pobl, gwrthrychau, meddylfryd, perthnasoedd, rhinweddau, popeth) i fod yn ddibynnol ar achosion ac amodau, ac o'r herwydd maent yn newid yn gyson.
- Dukkah yw'r gwirionedd cyntaf o'r Pedwar Gwirionedd Nobl ac yn un o'r tri arwydd o fodolaeth. Dylech ddisgwyl i ymgeiswyr gael anhawster wrth gyfieithu 'dukkha' i'r Gymraeg. Mae'n golygu mwy na dioddef. Mae'n ddiagnosis o'r cyflwr dynol ac yn ymwneud ag anfodlonrwydd cyffredinol â bywyd. Mae Dukkah yn golygu sbectrwm o brofiadau, o deimlo'n annigonol i ddioddefaint.
- Nid yw Dukkah'n ymwneud â phethau da yn dod i ben yn unig. Mae'n ymwneud â phopeth yn bod yn sylfaenol amherffaith, hyd yn oed os mai dim ond ychydig yn amherffaith ydyw.
- Gallai ymgeiswyr ddatblygu'r syniad o dukkha mewn tair ffordd: dukkha sy'n deillio o ddioddefaint, dukkha sy'n deillio o boen meddyliol/emosiynol a dukkha sy'n deillio o fyrhoedledd.
- Mae Bwdhyddion yn credu bod anwybodaeth yn deillio o'r methiant i ddeall gwirionedd anicca a dukkha a'r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredinol.
- Mae anicca a dukkha yn cael eu haddysgu fel y gall Bwdhyddion geisio a chael goleuedigaeth. Maent yn cynnig diagnosis o'r cyflwr dynol.

**Nid rhestr wirio yw hon, felly cofiwch roi credyd am unrhyw ddewisiadau eraill dilys.**

Gwiriwch bob pwynt bwled erbyn y cwestiwn er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol.
Wrth roi adborth i'r myfyrwyr, dylech rannu eich cynllun marcio gyda nhw.

# Y cynllun 3 phwynt i osod eich cwestiynau AA2 eich hun

Wrth osod cwestiwn AA2, mae gennych DDAU ddewis:

**1. Cofiwch mai dyma'r unig ddau air gorchymyn a ddefnyddir ar gyfer unrhyw gwestiynau AA2:**
**Naill ai** "Gwerthuswch y safbwynt ..." (cyn gosodiad)" neu Gwerthuswch y safbwynt hwn..."
(ar ôl gosodiad penodol)

**2a. NAILL AI**

**Dewiswch un o'r pwyntiau bwled sy'n gysylltiedig â'r rhan o'r fanyleb ar gyfer (a) e.e.**

**'Mae'r tri laskhana yn newyddol.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.**

**2b. NEU**

**Lluniwch gwestiwn AA2 eich hun rydych chi'n credu y byddai'n codi'n naturiol o'r rhan o'r fanyleb yr ydych wedi'i ddefnyddio ar gyfer eich cwestiwn AA1.**

**3. Lluniwch Gynllun Marcio AA2.**

# Gosod Cwestiynau AA2

1. **Cofiwch mai dyma'r unig ddau air gorchymyn a ddefnyddir ar gyfer unrhyw gwestiynau AA2:**

   **Naill ai** "Gwerthuswch y safbwynt..." (cyn gosodiad)"

   **neu** "Gwerthuswch y safbwynt hwn ...." (ar ôl gosodiad penodol)

2. **Naill ai dewiswch un o'r pwyntiau bwled sy'n gysylltiedig â'r rhan o'r fanyleb ar gyfer (a) e.e.**

   "Mae'r tri lakshana yn negyddol.'

   Gwerthuswch y safbwynt hwn.

   (addaswyd o'r 2il bwynt bwled AA2 Thema 2 y Fanyleb UG)

   **Neu**

   **Lluniwch gwestiwn AA2 eich hun rydych chi'n credu y byddai'n codi'n naturiol o astudio'r cynnwys yn Thema 2.**

**Wrth ysgrifennu cwestiwn, ystyriwch y canlynol fel rhestr wirio:**

1. Ydy'r cwestiwn yn bodloni gofynion y fanyleb (yn amlwg yn gysylltiedig â'r fanyleb) a ddim mynd y tu hwnt i hynny?
2. Ydy'r termau a ddefnyddir yn briodol ar gyfer myfyrwyr 17/18 oed?
3. Ydy'r iaith yn glir ac yn fanwl?
4. Ydy strwythur y frawddeg a ffocws y cwestiwn yn glir?
5. Gofynnwch i o leiaf dau berson arall i roi adborth ar y papur rydych chi wedi ei osod a gwnewch ddiwygiadau lle bo angen.

Unwaith y byddwch wedi gwneud hynny ac wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau, rhaid i chi symud ymlaen i'r cam nesaf, sef cynhyrchu cynllun marcio.

## 3. Creu Cynllun Marcio AA2

Cymhwyswch yr un egwyddorion wrth lunio'r cynllun marcio ag y gwnaethoch ar gyfer AA1 - sicrhewch fod enghreifftiau o linellau rhesymu clir a bod y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn berthnasol i'r cwestiwn.

Er enghraifft:

'Mae'r tri lakshana yn negyddol.'

Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol, ond rhaid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Efallai y bydd ymgeiswyr yn dadlau nad yw popeth mewn bywyd yn negyddol na'n gysylltiedig â dioddefaint neu deimlo'n annigonol. Mae digwyddiadau hapus a dymunol yn bodoli hefyd. Roedd y Bwdha yn dweud bod digwyddiadau hapus a dymunol yn real, ond nad ydynt yn para a'u bod yn ansylweddol.
- Gallai ymgeiswyr ddadlau bod nodweddion parhaol i fywyd fel cariad dynol, presenoldeb ysbrydoledig natur, natur celfyddyd neu'r dyhead i weithredu daioni. Yn ôl y Bwdha, er bod y rhain yn barhaus, nid yw'r nodweddion hyn yn dragwyddol.
- Mae'r syniad bod Bwdhaeth yn negyddol yn deillio o'r ffaith bod y term dukkha yn cael ei gam-gyfieithu i "dioddefaint".
- Efallai y bydd ymgeiswyr yn dadlau nad yw'n negyddol, ond yn realistig. Efallai y byddant yn dadlau mai camddealltwriaeth o'r tri lakshana sydd wrth wraidd llawer o drachwant, rhithdyb a dioddefaint.
- Mae Bwdhaeth yn realistig yn y modd y mae'n cynnig diagnosis o'r cyflwr dynol; mae Bwdhaeth yn hynod gadarnhaol gan ei fod yn dysgu bod ffordd allan o ddioddefaint.
- Efallai y byddant yn dadlau'r safbwynt Bwdhaidd bod gweld gwirionedd y Lakshanas yn rhan sylweddol o'r daith tuag at oleuedigaeth, ac felly yn hytrach na bod yn negyddol, mae'n gadarnhaol gan ei fod yn arwain at iachawdwriaeth.
- Un nodwedd gadarnhaol o'r anicca (byrhoedledd) i Fwdhyddion yw'r ffaith nad yw neb yn sefydlog fel y maent, ac mae gan bawb y gallu i newid ac i dyfu.

**Ar y cyfan, mae disgwyl i ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i werthusiad teilwng ynghylch y mater a godir.**

# Gosod ffug bapur cyflawn ar gyfer CBAC UG Uned 1 Astudiaeth o Grefydd opsiynau A i Dd

Ailadroddwch y broses a nodir ar y tudalennau blaenorol ond cyn gwneud hynny:

1. Penderfynwch pa Thema yr hoffech ei ddefnyddio ar gyfer Adran A eich papur
2. Nodwch pa elfennau AA1 fyddwch yn eu targedu yn eich cwestiynau (a) – ceisiwch gynnwys elfennau amrywiol ar draws y cwestiynau a osodir ym mhob Uned.
3. Unwaith i chi orffen eich cwestiynau o Adran A, adolygwch nhw a sicrhewch fod eich C1 a'ch C2 yn debyg o ran galw.
4. Rhaid i'ch tri chwestiwn sy'n weddill, sef C3, C4 a C5 **ddod o'r tair thema sy'n weddill na ddefnyddir yn Adran (A).**
5. Gallwch NAILL AI

    (i) osod cwestiwn ar destun **o bob un o'r themâu sy'n weddill**

    e.e. pe bai Adran A yn seiliedig ar Thema 2, yna gallech ddewis

    1 x Thema 1, 1 x Thema 3, 1 x Thema 4.

    Neu

    (ii) gosod mwy nag un cwestiwn ar un thema e.e. 2 x Thema 3, 1x Thema 4 a gadael allan Thema 1 yn llwyr.

6. Unwaith i chi orffen eich cwestiynau o Adran B, adolygwch nhw a sicrhewch fod eich C3, 4 a 5 yn debyg o ran galw.
7. Gofynnwch i o leiaf dau berson arall i roi adborth ar y papur rydych chi wedi ei osod a gwnewch ddiwygiadau lle bo angen.

# Gosod ffug bapur ar gyfer CBAC UG Uned 2

## Adran A – (Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg) neu Adran B – (Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd)

1. Penderfynwch ba Thema neu Themâu yr hoffech eu defnyddio ar gyfer y ddau gwestiwn sydd eu hangen ar gyfer Adran A neu B. Gellir cymryd cwestiynau o unrhyw le yn y fanyleb.
2. Nodwch pa elfennau AA1 fyddwch yn eu targedu yn eich cwestiynau (a) – ceisiwch gynnwys elfennau amrywiol ar draws y cwestiynau a osodir ym mhob Uned.
3. Unwaith i chi orffen eich cwestiynau o Adran A, adolygwch nhw a sicrhewch fod eich C1 a'ch C2 yn debyg o ran galw.
4. Unwaith i chi orffen eich cwestiynau o Adran A, adolygwch nhw a sicrhewch fod eich C3 a'ch C4 yn debyg o ran galw.
5. Gofynnwch i o leiaf dau berson arall i roi adborth ar y papur rydych chi wedi ei osod a gwnewch ddiwygiadau lle bo angen.

# Gosod cwestiwn neu gwblhau ffug bapur CBAC ar gyfer Unedau 3 i 6 Safon Uwch.

Mae'r broses o osod cwestiynau Safon Uwch / papur ffug yn debyg i UG heblaw am y ffaith bod:

## Ar gyfer Adran A

I. Mae'r adran hon yn cynnwys cwestiynau math AA1 yn unig.

II. Dim ond dau o'r cwestiynau hyn sydd eu hangen ar gyfer Adran A.

III. Ni fydd y gair gorchymyn 'Amlinellwch' yn cael ei ddefnyddio ar lefel Safon Uwch.

## Ar gyfer Adran B


I. Mae'r adran hon yn cynnwys cwestiynau math AA2 yn unig.

II. Mae angen pedwar cwestiwn ar gyfer Adran B.

III. Ni ellir cymryd cwestiynau ar gyfer yr adran hon o'r un rhan yn y fanyleb â'r rhai a ddefnyddir yn Adran A.

# Datblygu Sgiliau AA1 ac AA2

Y cynllun tri cham ar gyfer creu ymateb AA1 da



| Beth sydd angen i mi ei wneud? | Sut ydw i'n gwneud hyn? |
|---|---|
| **1. Mae angen i chi ddewis gwybodaeth yr ydych wedi ei dysgu i ateb y cwestiwn sy'n cael ei osod.** | • Darllenwch pob cwestiwn o'r ddwy adran yn ofalus cyn dewis pa gwestiwn i'w ateb ym mhob adran.<br>• Tanlinellwch eiriau ac ymadroddion gorchymyn allweddol.<br>• Mae'r ymgeisydd yn dewis gwybodaeth y mae wedi ei dysgu i ateb y cwestiwn sy'n cael ei osod.<br>• Cofiwch – mae angen i'r ymateb fod yn gryno ac i'r pwynt. Peidiwch â chynnwys deunydd amherthnasol nad yw'n mynd i'r afael â'r cwestiwn.<br>• Ystyriwch ysgrifennu cynllun cryno iawn / map meddwl yn dangos ble bydd pob darn o wybodaeth yn mynd. |
| **2. Mae angen i chi wneud argraff gyntaf dda.** | **Y cyflwyniad yw'r argraff gyntaf bydd yr arholwr yn ei gael o'ch ymateb – felly mae angen i'r cyflwyniad fod yn un da.**<br><br>Dangoswch eich bod yn ateb y cwestiwn o'r dechrau (efallai byddwch angen ychydig o ddiffiniadau neu gyd-destun ar gyfer geiriau a/ neu ddigwyddiadau a ddefnyddir yn y teitl). Er enghraifft, os oedd y cwestiwn am gymhwyso damcaniaeth foesegol at y mater o 'ewthanasia', yna byddai'n syniad da dangos eich bod yn gwybod beth yw ystyr 'ewthanasia' ar y dechrau. |

| Beth sydd angen i mi ei wneud? | Sut ydw i'n gwneud hyn? |
|---|---|
| **3. Mae angen i chi ddangos eich gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc yn glir.** | **Mynegwch eich pwynt, esboniwch y pwynt hwnnw a'i ategu â thystiolaeth gan yna greu cyswllt i'r baragraff nesaf. Yn y Saesneg gellid dilyn yr acronym PEEL (Point, Explain using Evidence, Link) i'ch cynorthwyo.**<br>**Make a POINT** – mynegi'r wybodaeth yn glir.<br>**EXPLAIN using EVIDENCE.**<br>Datblygwch y pwynt yr ydych wedi'i wneud a chynnwys tystiolaeth:<br>**Mae ymadroddion defnyddiol o 'dystiolaeth' yn cynnwys:**<br>• Er enghraifft…<br>• Er mwyn dangos / darlunio hyn …<br>**LINK -** Sicrhewch fod eich ymateb yn rhesymegol ac yn llifo o un paragraff i'r llall. |
| **4. Mae angen i chi ddefnyddio iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.** | Defnyddiwch iaith a geirfa arbenigol yn gywir mewn cyd-destun – defnyddiwch eiriau o 'eirfaoedd' a ddarperir. |
| **5. Mae angen i chi gyfeirio at destunau cysegredig a ffynonellau o ddoethineb lle bo hynny'n briodol.** | Dyfynnwch yn gywir o destunau cysegredig a ffynonellau o ddoethineb (lle bo hynny'n briodol). |
| **6. Yn Safon Uwch, mae angen i chi wneud cysylltiadau â meysydd astudio eraill a chyfeirio at ysgolion o feddwl neu farn ysgolheigion (lle bo hynny'n briodol).** | Anelwch at wneud cysylltiadau cywir â meysydd astudio eraill a chyfeiriwch at ffyrdd gwahanol o feddwl neu farn ysgolheigion (lle bo hynny'n briodol). |

## Nodweddion pwysig ymateb AA1 da

### Pam mae paragraffu'n bwysig?

- Mae paragraffu'n rhannu ymateb ymgeisydd yn ôl y prif bwyntiau sydd wedi'u cynnwys ynddo.
- Dylai pob paragraff drafod prif syniad a dylai'r arholwr allu adnabod yr hyn mae'r paragraff yn sôn amdano.
- Dylai pob paragraff newydd ddangos ychydig o newid mewn ffocws.
- Mae paragraffau'n aml yn dechrau â brawddeg neu ran o frawddeg am y testun – gosodiad sy'n cael ei ehangu yng ngweddill y paragraff. Mae'r frawddeg am y testun yn gweithredu fel ffordd o arwain eich darllenydd trwy'r traethawd a dylai hefyd gysylltu'n ôl â'r cwestiwn a osodir. Er enghraifft os ydych chi'n darllen brawddeg gyntaf bob paragraff mewn erthygl papur newydd, fel arfer gallwch gael blas o'r pwyntiau allweddol ar gyfer y testun cyfan.

## Cysylltu ymadroddion ar gyfer paragraffau

Ystyriwch ddefnyddio ychydig o ymadroddion 'cysylltiol' gan fod y rhain yn eich helpu i adeiladu ymateb rhesymegol trwy gysylltu un paragraff â pharagraff arall. Mae traethawd heb unrhyw eiriau cysylltiol yn darllen fel cyfres o osodiadau digyswllt heb unrhyw lif. Defnyddiwch ymadroddion fel y rhain ...

- I ddechrau ...
- Yna …
- Mae hyn yn dangos bod ...
- O ganlyniad ...
- Yn dilyn hyn ...
- Ynghlwm â'r syniad / cysyniad hwn mae ...
- O hyn gallwn weld bod... neu ... Mae'n dilyn ...
- Yn ogystal …
- Ar ben hynny …
- Yn benodol …

# Ymadroddion defnyddiol ar gyfer cwestiynau CYMHARU

(pan fo gofyn defnyddio tebygrwydd a gwahaniaeth)

| Geiriau cysylltiol defnyddiol i'w defnyddio wrth geisio cyfleu gwahaniaeth | Geiriau cysylltiol defnyddiol i'w defnyddio wrth geisio cyfleu tebygrwydd |
|---|---|
| I'r gwrthwyneb | yn yr un modd |
| fodd bynnag | yn yr un ffordd |
| er hynny | hefyd |
| yn groes i | yn ogystal |
| ar y llaw arall | y ddau |
| eto i gyd | felly hefyd |
| fel arall/i'r gwrthwyneb | …yn cytuno bod … |
| yn hytrach na | |

# Enghraifft o ffurflen adborth AA1

| Teitl Traethawd AA1: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adborth AA1** | | | | |
| **Nodweddion pwysig ymateb AA1 da** | **Wedi'i fodloni'n llawn** | **Wedi'i fodloni'n rhannol** | **Heb ei fodloni** | **Sylwadau pellach** |
| **1. Mae'r ymgeisydd yn dewis gwybodaeth i ateb y cwestiwn sy'n cael ei osod.** | | | | |
| **2. Mae'r ymgeisydd yn creu argraff dda trwy ddangos eu bod yn ateb y cwestiwn yn y paragraff cyntaf.** | | | | |
| **3. Mae'r ymgeisydd yn dangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r pwnc yn glir gan ddefnyddio dull Point, Explain using Evidence, Link i'r paragraff nesaf.** | | | | |
| **4. Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.** | | | | |
| **5. Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at destunau cysegredig a ffynonellau o ddoethineb lle bo hynny'n briodol.** | | | | |
| **6. Yn Safon Uwch (lle bo hynny'n briodol) mae'r ymgeisydd yn gwneud cysylltiadau â meysydd astudio eraill.** | | | | |
| **7. Yn Safon Uwch, mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at ysgolion o feddwl neu farn ysgolheigion** | | | | |
| **Beth wnaeth yr ymgeisydd yn dda?** | •<br>•<br>• | | | |
| **Sut gallai'r ymgeisydd wella'u hymateb nesaf?** | •<br>•<br>• | | | |

## Sgiliau AA2 – meddwl yn feirniadol: dadansoddi a gwerthuso dadl

### Terminoleg AA2 ddefnyddiol i ymgeiswyr

- **Beth yw haeriad (assertion)?**

  Gosodiad neu ddatganiad, yn aml heb ei ategu ac heb reswm.

- **Beth yw honiad (predicate)?**

  Sylfaen neu dybiaeth sy'n tanlinellu dadl.

- **Beth yw gosodiad (proposition)?**

  Gosodiad a gyflwynir i gynulleidfa fel dadl, sy'n cyflwyno barn ond gallai fod yn anwir yn y diwedd.

- **Beth yw rhagosodiad (premise)?**

  Gosodiad y credir ei fod yn wir ac sydd yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen i'r ddadl.

- **Beth yw rhagosodiad anwir (false premise)?**

  Gosodiad sydd ddim yn wir mewn gwirionedd.

- **Beth yw dadl (argument)?**

  Safbwynt, sydd fel arfer yn gysylltiedig ag ymgais i berswadio eraill i dderbyn y safbwynt hwnnw trwy resymu a/neu dystiolaeth.

- **Beth yw casgliad (conclusion)?**

  Diweddbwynt sydd wedi ei gyrraedd trwy resymu.

- **A oes rhaid i'r casgliad fod ar y diwedd?**

  Na – gellir rhoi casgliad ar ddechrau ymateb gan ddatblygu'r rhesymu i gefnogi'r casgliad sy'n cael ei gynnig. Gellir dod i gasgliadau rhannol hefyd wrth i'r ateb fynd yn ei flaen neu roi casgliad mwy 'traddodiadol' ar ddiwedd ymateb.

## Ceisio ffurfio dadl

Enghraifft syml o ddadl. (Wedi'i addasu o Critical Thinking Skills gan Stella Cottrell (ISBN:9780230285293)



Credaf fod camerâu golau coch yn helpu i ostwng y nifer o ddamweiniau mewn mannau lle mae damweiniau yn gyffredin. (casgliad)

Mae sawl damwain traffig yn digwydd ar gyffordd Rhodfa'r Gorllewin a Heol Caerdydd (gososdiad 1).

Mae gyrwyr yn mynd trwy'r golau coch yn y groesffordd hon yn aml i geisio cyrraedd eu cyrchfan yn gyflymach (gosodiad 2).

Mae camerâu golau coch newydd bellach yn eu lle ar y gyffordd hon i atal damweiniau o'r fath (gosodiad 3).

Bydd camerâu golau coch yn gostwng y nifer o ddamweiniau ar y gyffordd hon (dadl gyffredinol).

Bydd cofnodion yswiriant dros y blynyddoedd nesaf yn gallu profi bod hyn yn wir (defnyddio rhesymu neu dystiolaeth i ategu'r ddadl).

Mae camerâu golau coch yn atal pobl rhag mynd trwy'r golau coch (yr honiad).

## Sut i ddadansoddi a gwerthuso dadl?

Ychydig o anogiadau defnyddiol:

- A yw'r wybodaeth a roddir yn ddadl o gwbl, neu'n haeriad yn unig? Pam?
- Beth yw'r prif ragosodiad neu beth yw prif ragosodiadau'r ddadl?
- A yw'r rhesymau / tystiolaeth a gyflwynir i ategu'r ddadl yn berswadiol?
- Ydyn? Pam?
- Na? Pam ddim?
- Beth yw rhesymau'r person dros wneud y ddadl?

Ystyriwch y cyd-destun ehangach.

## Ceisio canfod tyllau yn y ddadl – ychydig o ddiffygion cyffredin yn y ddadl

| Diffygion cyffredin | Enghreifftiau |
|---|---|
| **Cymryd cyswllt yn ganiataol**<br>(cymryd yn ganiataol fod un peth wedi achosi un arall) | e.e. Cafodd fy nheulu i gyd gyw iâr i ginio ddoe. Roedd fy nheulu i gyd yn sâl. Y cyw iâr oedd wedi gwneud fy nheulu i gyd yn sâl. |
| **Nid yw'n ddadl o gwbl mewn gwirionedd, haeriad yn unig ydyw – tystiolaeth neu resymu ategol ar goll.**<br>Efallai bydd yn defnyddio ymadroddion fel 'yn amlwg', 'yn glir' neu 'yn naturiol' i'ch twyllo i feddwl nad oes angen dadansoddi na gwerthuso'r pwynt. | e.e. Mae'n glir nad yw Deddf Naturiol yn gweithio mewn cymdeithas heddiw oherwydd mae'n ddeontolegol. |
| **Mae ychydig o dystiolaeth neu resymu ategol, ond nid oes digon i wneud achos argyhoeddiadol neu nid yw'r dystiolaeth yn ategu'r ddadl a gyflwynir.** | e.e. Mae deg person yn dyst i ladrad banc, dim ond un person â golwg gwael sy'n dewis yr unigolyn dan amheuaeth o res adnabod. |
| **Tawtoleg yn unig yw'r ddadl** (ymadrodd lle ailadroddir yr un peth mewn geiriau gwahanol). | e.e. Dylid hysbysu mwy o bobl o werth dilyn diet iach. Gallai diet iach fod yn fanteisiol iawn. Dylai'r arweiniad a roddir i bobl bwysleisio buddion diet iach. |

| Ymadroddion 'cysylltiol' da ar gyfer dadleuol neu wrthddadleuon |
|---|
| Y mater allweddol yma yw ... |
| Cryfder neu wendid allweddol o'r ddadl hon yw ... |
| Nid yw'r ddadl hon yn effeithiol oherwydd ... |
| ... yn datgan bod ... |
| I ategu'r ddadl/safbwynt hon/hwn... |
| At hynny … |
| Ar ben hynny … |
| Mewn cysylltiad â ... |
| ... yn datgan yn effeithiol bod ... |
| Fodd bynnag … |
| Dadl arall yw ... |
| Serch hynny … |
| Neu fel arall … |
| I wrthwynebu hyn ... |

| Enghreifftiau o ymadroddion 'casgliad rhesymegol' |
|---|
| Wedi ystyried y prif ddadleuon ... |
| Wedi dadansoddi a gwerthuso'r dystiolaeth ... |
| Yn y bôn ... |
| Ar y cyfan ... |
| Gallech hefyd ddewis dod i gasgliad drwy ddyfynnu neu gyfeirio at ffynhonnell gynradd neu eilaidd, un sy'n ehangu ar eich prif bwynt neu yn ei roi mewn persbectif gwahanol. |

# Nodweddion cyffredin ymatebion 'Da' a 'Gwael' AA2

| Gwerthuso a dadansoddi da | Gwerthuso a dadansoddi gwael |
|---|---|
| **Mae'r dadleuon a gyflwynir yn amlwg (yn berthnasol i'r cwestiwn).** | Mae rhai neu bob un o'r dadleuon a gyflwynwyd yn amherthnasol ac nid ydyn nhw'n mynd i'r afael â'r cwestiwn sy'n cael ei osod. |
| **Mae'r rhesymeg / dystiolaeth a gyflwynir yn glir, yn rhesymegol ac yn gryno.**<br><br>Gallai hyn gynnwys rhesymu ar y cyd lle mae sawl rheswm yn atgyfnerthu ei gilydd neu resymu annibynnol lle mae pob rheswm ar ei ben ei hun yn ategu'r casgliad sy'n cael ei lunio. | Gwneir haeriadau heb unrhyw dystiolaeth neu resymu ategol. Gallai'r haeriadau fod yn wir ond mae'r diffyg tystiolaeth yn golygu nad ydynt wedi eu datblygu'n ddigonol i drosi haeriad yn ddadl.<br><br>Mae'r diffyg rhesymau a / neu dystiolaeth yn golygu bod dadl yn cael ei hawgrymu yn hytrach na'i datblygu'n glir. Mae geirio amhenodol / annelwig hefyd yn cael ei ddefnyddio'n aml. |
| **Mae dadleuon gwahanol a / neu wrthwynebol yn cael eu hystyried ac i'w gweld yn glir yn yr ymateb.**<br><br>**Cyflwynir gwrthddadleuon i ddangos pam mae'r safbwynt gwahanol yn llai argyhoeddiadol.** | Mae rhestr o haeriadau 'o blaid' ac 'yn erbyn' yn aml yn nodweddu ymatebion fel hyn. |
| **Mae'r rhesymu a gyflwynir yn gyson o ran ei resymeg.**<br><br>Mae pob rhan o'r rhesymu'n arwain yn rhesymegol at lunio'r casgliad. | Nid yw dadleuon yn cael eu gwneud yn gyson/ rhesymegol, e.e. "Mae afalau'n dda i'ch dannedd ond maent yn cynnwys asid ac mae hyn yn erydu enamel dannedd."<br><br>Dadleuon sy'n neidio o un pwynt i'r llall ar hap neu heb gyfeiriad.<br><br>Gellir fod nifer o dawtolegau yn yr ymateb hefyd – ailadrodd di-angen o'r un pwynt neu ddadl. |

| Gwerthuso a dadansoddi da | Gwerthuso a dadansoddi gwael |
|---|---|
| **Gellir llunio casgliadau rhannol.**<br><br>Mewn ymateb manwl gallai casgliadau rhannol helpu'r darllenydd i ganolbwyntio ar y rhesymu sy'n cael ei ddatblygu. Gellir eu strwythuro fel a ganlyn:<br><br>i. I gynnwys enghreifftiau o resymu tebyg gyda'i gilydd i ffurfio casgliad rhannol.<br><br>ii. Mae pob un o'r casgliadau rhannol yn ategu'r prif ymresymiad.<br><br>iii. Mae'r casgliad terfynol yn cael ei lunio o'r rhesymau neu'r dystiolaeth a gyflwynir.<br><br>**Darperir casgliad rhesymegol – un a gyrhaeddir ar sail y rhesymu a gafwyd wrth fynd ymlaen â'r ymateb.** Bydd yn cynnwys barn a luniwyd o ddadansoddiad o'r rhesymau a roddir. | Yn aml nid oes casgliad ond os oes, nid oes cysylltiad clir â'r haeriadau a wneir na'r dystiolaeth a roddir i ategu'r casgliad.<br><br>Os oes casgliad, **casgliad crynodol** ydyw fel arfer – casgliad sy'n tynnu gwybodaeth flaenorol ynghyd yn unig heb roi barn. |

# Enghraifft o ffurflen adborth AA2

| **Teitl Traethawd AA2:** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adborth AA2** | | | | |
| **Nodweddion pwysig ymateb AA2 da** | **Wedi'i fodloni'n llawn** | **Wedi'i fodloni'n rhannol** | **Heb ei fodloni** | **Sylwadau pellach** |
| **1. Cafodd y dadleuon (yn cynnwys tystiolaeth ategol a / neu resymu) eu gweld yn glir yn yr ymateb.** | | | | |
| **2. Ystyriwyd dadleuon gwahanol a / neu wrthwynebol.** | | | | |
| **3. Dangosodd unrhyw wrthddadleuon pam nad yw'r safbwynt yn argyhoeddiadol.** | | | | |
| **4. Mae'r rhesymu a gyflwynir yn gyson o ran ei resymeg.** | | | | |
| **5. Yn Safon Uwch, mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at ysgolion o feddwl neu farn ysgolheigion mewn cyd-destun.** | | | | |
| **6. Yn Safon Uwch (lle bo hynny'n briodol) fe gysylltodd yr ymgeisydd â meysydd astudio eraill.** | | | | |
| **7. Mae'r prif gasgliadau neu'r casgliadau rhannol yn datblygu yn rhesymegol o'r dadleuon a gyflwynwyd.** | | | | |
| **Beth wnaeth yr ymgeisydd yn dda?** | •<br>•<br>• | | | |
| **Sut gallai'r ymgeisydd wella eu hymateb nesaf?** | •<br>•<br>• | | | |

# Paratoi at y Cwestiwn Gwerthuso

Dyma ambell i her y gallwch eu rhoi i fyfyrwyr ar ddiwedd pob is-thema. -
*Gregory A. Barker*

Yn Safon Uwch mae'r gydran cwestiwn gwerthuso yn yr arholiad (AA2) wedi'i phwysoli'n drymach na'r cwestiynau ar gynnwys y wybodaeth (AA1) o 60% i 40%. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig neilltuo amser i gydran AA1 gan y bydd hwn yn sail i unrhyw bwyntiau gwerthusol.

Mae tri pheth yn wahanol rhwng gwneud cwestiwn gwerthuso Safon Uwch a chwestiwn gwerthuso UG:

I. **Amser**. Mae 36 munud gan fyfyrwyr ar gyfer y ddau gwestiwn unigol ar eu papur Safon Uwch (o gymharu â 22.5 munud yn yr UG).

II. **Ysgolheigion**. Bydd y bwrdd yn chwilio am ymgysylltiad mwy parhaus ag ysgolheigion nag ar lefel UG (os oes ysgolheigion yn yr adran honno).

III. **Cysylltiadau**. Bydd y bwrdd yn edrych i weld os gall myfyrwyr wneud cysylltiadau â rhannau eraill o'r fanyleb yn eu hateb. Dylid canolbwyntio ar y cwestiwn ei hun bob amser, a chymhwyso cynnwys o'r adran honno o'r fanyleb i'r cwestiwn hwnnw; fodd bynnag, os oes cysylltiadau perthnasol o adrannau eraill y fanyleb, gallai hyn gryfhau papur.

## Saith Her

Dyma strategaeth awgrymedig er mwyn annog myfyrwyr i baratoi at eu cwestiynau gwerthuso. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r gred, ar ôl dysgu'r cynnwys, mai'r ffordd orau i baratoi at arholiad yw ymarfer cwestiynau. Gallech ddefnyddio'r strategaeth hon ar ddiwedd pob is-thema. Gellir gwneud Heriau 1-3 mewn awr – ac efallai gellir dechrau Her 4. Yna gallai myfyrwyr weithio ar yr heriau sy'n weddill eu hunain, gan wirio gyda chi pan fydd ganddynt ddrafft i'w rannu.

1. **Her y Gwrthdaro**. Ar ôl cyflwyno'r cynnwys – a chyn i'r myfyrwyr hyd yn oed ystyried cynnwys, pwyntiau bwled neu ymarferion AA2 – rhowch yr her hon iddynt: 'Edrychwch dros y cynnwys a gwnewch restr pwyntiau bwled, syml o unrhyw safbwyntiau gwerthusol ac anghytundebau a nodwyd gennych yn y cynnwys hwn.' Trafodwch yr hyn maent wedi'i ganfod.

2. **Yr Her Ddyfalu**. Yna gofynnwch iddynt ddyfalu beth allai rhai cwestiynau gwerthuso fod ar gyfer yr is-thema hwn. Gallant ysgrifennu hyn a/neu gyfrannu hyn at drafodaeth grwp.

3. **Her y Casgliad**. Nawr byddwch yn dangos y ddau bwynt bwled iddyn nhw yn y fanyleb sy'n gymwys i'r is-thema hwn. Eu her nesaf yw meddwl am 3 neu 4 casgliad gwahanol a ellir eu cyrraedd mewn ymateb i bob pwynt bwled. Y cwbl maent yn ei wneud ar y cam hwn yw ysgrifennu un frawddeg ar gyfer pob casgliad gwahanol. Mae rheswm i feddwl am dri neu

bedwar. Mae'r Bwrdd Arholi am weld tystiolaeth o allu gwerthusol. Efallai mai dau gasgliad fydd 'cytuno'n gryf/o blaid' ac 'anghytuno'n gryf/yn erbyn' ar gyfer y maes gwerthuso hwnnw. Mae'n bosibl dangos gallu cryf i resymu gyda dwy ddadl (os yw dull 'pwynt bwled' wedi'i osgoi). Fodd bynnag, bydd nodi un neu ddau o gasgliadau dilys ychwanegol wirioneddol yn helpu myfyrwyr i ddeall gall fod amrywiaeth o ddadleuon y gellir eu gwneud.

4. **Her yr Ategu**. Yna rhowch dasg iddyn nhw o ysgrifennu ychydig o baragraffau ar bob un o'u casgliadau arfaethedig. Byddant yn ceisio cefnogi'r casgliad hwnnw gyda dadleuon, enghreifftiau a chysylltiadau â damcaniaethwyr a thestunau (os ydynt yn gymwys).
5. **Her y Drafft**. Yna gallan nhw roi eu casgliadau ar wahân gyda'i gilydd mewn un traethawd. Bydd hyn â safbwynt cyffredinol (hyd yn oed os mai'r safbwynt yw ei bod yn ddilys i beidio cael safbwynt!) O fewn y safbwynt hwnnw, byddant yn rhannu dadleuon ar gyfer y casgliadau gwahanol.
6. **Her y Cysylltiadau**. Y myfyrwyr i ofyn i'w hunain a oes unrhyw ddamcaniaethau, trafodaethau neu syniadau o fannau eraill yn y fanyleb a all gryfhau'r cyflwyniad o unrhyw un o'u dadleuon. Gallant ychwanegu hyn at eu drafft.
7. **Her y Gymhariaeth**. Yn olaf, y myfyrwyr i gymharu eu gwaith wedi'i gwblhau gyda'r 'materion i ddadansoddi a gwerthuso' yn adran AA2 gwerslyfr Illuminate. Trwy wneud hyn, gallan nhw ddarganfod ffyrdd i wella'u dadleuon. Sylwer: mae pob un o'r ymatebion yn yr adran hon o'r llyfr yn awgrymu amrywiaeth o gasgliadau gwahanol y gellid dadlau ar eu cyfer – mae hwn yn adnodd defnyddiol os yw myfyrwyr yn cael anawsterau dod o hyd i safbwyntiau.

## Cadwch mewn Cof...

Dyma ambell beth i gadw mewn cof wrth i chi arwain myfyrwyr yn eu hymarfer gwerthuso:

A. Sicrhewch fod eu gwaith yn adlewyrchu llai o ddadleuon ond eu bod yn ddadleuon mwy datblygedig yn hytrach na llawer o ddadleuon bach llai datblygedig.

B. Sicrhewch fod pob un o'u dadleuon yn ymwneud yn dda â phob un o'r casgliadau sy'n cyd fynd â nhw – a bod y casgliadau eu hunain yn ymwneud â'r cwestiwn.

C. Gwiriwch i weld bod safbwynt wedi'i adlewyrchu yn eu hateb gwerthusol. (Gallai hyn gynnwys y safbwynt bod casgliadau gwahanol yr un mor gryf – os gallan nhw gyfiawnhau hyn.) Wrth gwrs, ni ddylai'r safbwynt byth ddirywio eu gallu i gynrychioli safbwyntiau gwahanol gyda chryfder.

D. Gwiriwch i weld a yw'r myfyrwyr wedi gallu gwneud cyswllt effeithiol yn eu hateb gyda deunydd arall yn y fanyleb.

Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd caredig Dr Greg Barker (http://gregbarker.education/)

# AURASMA

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys 'dolenni' neu 'awrâu' yn cynnwys fideos byr ar agweddau gwahanol Unedau 1 a 2.

Nid yw'r ffaith bod y fideo wedi ei ddewis fel fideo enghreifftiol yn golygu ei fod wedi ei arnodi gan CBAC/Eduqas mewn unrhyw ffordd. Yn syml iawn mae'r fideos yn cael eu defnyddio i ddarlunio sut gellir defnyddio Aurasma o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Gwiriwch ei fod yn addas i'ch myfyrwyr cyn caniatáu defnyddio'r dolenni hyn fel y byddech yn ei wneud ag unrhyw ddeunydd.

Er mwyn i'r dolenni weithio mae'n rhaid llwytho'r ap AM DDIM i lawr:

**1. Cofrestrwch fel defnyddiwr gan ddefnyddio'r ap sydd ar gael yn**

https://itunes.apple.com/us/app/aurasma/id432526396 (gweler tudalennau 2-4)


neu

Download on the App Store

https://play.google.com/store/apps/details?id=com.aurasma.aurasma (gweler tudalennau 5-6)

GET IT ON Google Play


**2. Ar ôl i chi gofrestru fel defnyddiwr, agorwch yr ap ... Ar gyfer fersiwn IOS**





Yn y blwch chwilio mewnbynnwch WJEC neu EDUQAS.

## 3. Dylai eich tywys i'r dudalen nesaf …

Tapiwch ar y ddolen benodol




## 4. Ar y sgrin nesaf tapiwch y tab 'follow'





Tapiwch yma i ddilyn ein sianel. Bydd hyn yn galluogi i'r holl ddolenni yn y llyfryn hwn i weithio.


## 5. Nawr dylai pob dolen yn y llyfryn hwn weithio. Pam ddim rhoi tro arni?

## Ar y brif sgrin

Tapiwch yma i ddeffro'r camera a hofrwch eich camera dros lun ar dudalennau 8-38 i sbarduno 'awra'.




## Ar gyfer fersiwn Android



Tapiwch y ddolen yma

3. Dylai eich tywys i'r dudalen nesaf...

Yn y blwch chwilio mewnbynnwch WJEC neu EDUQAS.





4. Byddwch yn cyrraedd y sgrin hon.




Tapiwch

5. Dylech nawr weld...




Tapiwch yma i ddilyn ein sianel. Bydd hyn yn galluogi i'r holl ddolenni yn y llyfryn hwn i weithio.

Tapiwch yma i ddeffro'r camera a hofrwch eich camera dros lun ar dudalennau 8-38 i sbarduno 'awra'.

# Sut gallwn ni ddefnyddio'r lluniau / tudalennau yn y llyfryn hwn yn ein canolfan?

Gofynnwch i'ch myfyrwyr lwytho'r ap i lawr, dilynwch ein sianel ac yna gallan nhw hefyd weld y lluniau'n 'dod yn fyw'.

1. Argraffwch rai o'r tudalennau ar bosteri A3 a'u gosod yn eich ystafell ar gyfer noson agored.
2. Rhowch y llun ar eich porthiant Twitter fel cyflwyniad i destun newydd.
3. Argraffwch y llun a gofynnwch i fyfyrwyr edrych ar y fideo fel gwaith cartref. Holwch gwestiynau dilynol yn y wers nesaf i wirio eu bod wedi ei wylio.


## Sut gallwn ni greu ein lluniau / sianel Aurasma ein hunain?

Gwyliwch y fideo isod i ddysgu sut i wneud hyn.

Gellir gwneud hyn mewn ychydig funudau'n unig.


https://www.youtube.com/watch?v=63-ZF87RtoQ

## UG: Uned 1 Opsiwn A – Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth




**Thema 1B: N.T. Wright ar atgyfodiad Crist**

*(Fideo gan 100huntley wedi'i gymryd oddi ar Youtube.com)*




**Thema 2C: N.T. Wright ar yr Iawn**

Christus Victor a Chyfnewid Cosb

*(Fideo gan Premier On Demand oddi ar Youtube.com)*




**Thema 3A: Cyfiawnhad trwy ffydd**

*(Fideo gan 3 Minute Theology oddi ar Youtube.com)*




**Thema 4B: Yr Ewcharist**

*(Fideo gan Dave oddi ar Youtube.com)*

## UG: Uned 1 Opsiwn B – Cyflwyniad i Astudiaeth o Islam




**Thema 1A: Sut dechreuodd Islam**

